# <u>Cyngor Cymuned Llanystumdwy</u>

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 12fed o Fai 2022 drwy Zoom yn brydlon am 7.00 o'r gloch.**

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn o bell gan ddefnyddio technoleg, ac roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc.

*Roedd bwriad i gynnal y cyfarfod yn Neuadd Chwilog, ond oherwydd salwch bu'n rhaid newid i 'zoom', ac fe roddwyd poster o flaen y Neuadd a nodyn ar y wefan rhag ofn y byddai aelodau o'r cyhoedd eisiau mynychu.*

**<u>Yn bresennol</u>** drwy 'Zoom': Y Cynghorwyr Tegid Jones (Cadeirydd), Angela Williams (Cadeirydd newydd), Margaret Griffith, Anwen Jones, Thomas Prys Jones, Aled Davies, Sian Angharad Parry, Rhys Tudur, Delyth Parry a'r Clerc.

1. **<u>Ymddiheuriadau</u>**: Cynghorwyr Aled Lloyd Evans, Gareth O. Davies, a Darren Morley.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 7fed o Ebrill 2022. (Y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd lofnodi ei bod yn gywir).

## <u>Cyfarfod Blynyddol (cychwyn 7.00 y.h. am yr 20 munud cyntaf)</u>

1. Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau.

2. Croesawu Cynghorwyr newydd, sef Cynghorydd Rhys Tudur (Ward Llanarmon) sydd hefyd yn Gynghorydd Cyngor Gwynedd, a Delyth Parry (Ward Llanarmon). Y Clerc wedi anfon ebost at bawb yn gofyn iddynt lofnodi'r datganiad derbyn swydd fel Cynghorydd, ac wedi atodi copi o'r Polisi Cód Ymddygiad hefyd sydd ar ein safle Wé, er mwyn i bawb gael cyfle i'w darllen, a bod yn ymwybodol o'r gofynion o fod yn Gynghorydd.

3. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod blynyddol 13eg o Fai, 2021. Derbyn.

4. Materion yn codi o'r cofnodion. Dim.

5. **<u>Adroddiad ar waith y flwyddyn rhwng 1af o Ebrill, 2021 i'r 31ain o Fawrth, 2022 gan y Cadeirydd</u>**. Eglurodd ein bod wedi llwyddo i ddefnyddio'r cyfrwng 'zoom' yn llwyddianus i gynnal cyfarfodydd misol ers dros y 2 flynedd diwethaf. Fe wnaed yr holl waith arferol o wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio, gwaith cynnal a chadw ar y llwybrau a'r cae chwarae, delio â'r ceisiadau ariannol, a'r gwaith wnaed i gael yr enwau pontydd. Mae trefniadau i osod 2 diffibileiddiwr yn fuan. Bu cryn newid yn ddiweddar ar ol i 4 Cynghorydd roi'r gorau iddi, ar ol blynyddodd lawer o wasanaeth, a bydd chwith mawr ar ei ol. Fe wnaeth ddiolch i bawb am ei gwaith a'i cymorth tra bu'n gadeirydd.

6. **<u>Adroddiad Ariannol am y flwyddyn 1af o Ebrill, 2021 i'r 31ain o Fawrth, 2022 gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.</u>** Derbyniwyd y cyfrifon am y flwyddyn, ac roedd y Clerc wedi anfon copi i bawb drwy ebost fis Ebrill 2022, felly byddent yn barod i gael ei anfon i gael ei archwilio.

**GWAITH Y FLWYDDYN RHWNG 01.04.2021 – 31.03.2022**

Dechrau Ebrill 2021 roedd cyfanswm o £13,496.92 yn y 3 cyfrif.
Erbyn diwedd Mawrth 2022 roedd y cyfanswm yn £15,674.54 yn y 3 cyfrif. Mae hyn yn cynnwys £4,583.54 yn y cyfrif cadw.
Roedd y praesept yn £18,000.00 llynedd.
Y prif wariant yn ystod y flwyddyn oedd:-

- Rhodd o £1000.00 tuag at ddiffibileiddiwr o flaen Neuadd Llanystumdwy.
- Talu £660.00 i Llechi'r Ddraig am arwyddion pontydd. Y Clerc wedi derbyn gwybodaeth y bydd y llechi yn cael ei gosod o fewn yr wythnosau nesaf.
- Derbyniwyd ad-daliad TAW o £207.48 llynedd, ac eleni bydd y swm yn £391.72.
- Derbyniwyd ad-daliad o £417.80 gan Cyngor Gwynedd am waith ar y llwybrau, sef yr un ffigwr a'r flwyddyn cynt.
- Derbyniwyd £4190.38 gan gwmni Lightsource a oedd yn £194.18 yn fwy na'r flwyddyn cynt.

Fe dalwyd £6,600.00 o daliadau o'r cyfrif cyfredol tuag at geisiadau am gymorth ariannol, a £1676.22 o'r cyfrif Lightsource, sef cyfanswm o £8,276.22 rhwng y ddau gyfrif. Roedd hyn y cynnwys talu am gyswllt Wifi mewn 1 pentref (ni dderbyniwyd cais ddigon buan gan Capel Pencaenewydd a Neuadd Llanystumdwy tan ar ol 01.04.2022, felly byddant yn cael ei cynnwys yn ffigyrau eleni), gwasanaeth O Ddrws I Ddrws, mynwentydd lleol, cylchoedd meithrin, clybiau lleol, neuadd a Menter y Plu.
Y gobaith eleni yw gosod 2 diffibileiddiwr, un yn Rhoslan ac un yng Nghapel y Beirdd.
Mae'r HSBC wedi penderfynu codi £5.00 y mis o gostau ar y 2 gyfrif cyfredol sydd gan y Cyngor, felly penderfyniwyd cau y cyfrif Lightsource, a defnyddio un cyfrif yn unig.
Ni dderbyniwyd bil gan Archwilio Cymru llynedd, oherwydd ei bod nhw fisoedd yn hwyr yn gorffen y gwaith a ni dderbyniwyd ateb ganddynt tan 07.04.2022. Roedd popeth yn iawn hefo'r archwilio mewnol ac allanol.
Y bwriad yw parhau hefo'r drefn o anfon y gyllideb/cyfrifon bob mis cyn y cyfarfod i gadw golwg ar y gwariant yn sgîl argymhelliad gan yr archwiliad allannol rai blynyddoedd yn nol.
Diolchodd y Clerc i bawb ac i'r Cadeirydd, am ei cymorth yn ystod y flwyddyn i hwyluso ei gwaith.
Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith, a datganwyd ei fod yn ymarfer da i anfon y gyllideb at bawb drwy ebost yn fisol i gadw golwg ar y gwariant.

7. Cyfle i'r trethdalwyr ofyn cwestiynau – nid oedd neb yn bresennol.

8. Ethol swyddogion am y flwyddyn 1af Ebrill, 2022 i 31ain o Fawrth, 2023:
 a) **Cadeirydd – Cynghorydd Angela Williams** (bydd angen trefnu i lofnodi datgan derbyn swydd).
 b) **Is gadeirydd – Cynghorydd Sian Angharad Parry** (bydd angen trefnu i lofnodi datgan derbyn swydd).
 c) **Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol** - aros yr un fath/dim newid.
 ch) **Elusen William Ellis**, Llanystumdwy, - Cynghorwyr Ward Llanystumdwy, bydd angen trefnu tynnu enw'r cyn Gynhorydd Naomi Jones a chynnwys Cynghorydd Sian Angharad Parry i allu llofnodi siec pan fydd angen. Y Clerc am drefnu hyn.

9. Cadarnhau a oes angen newid unrhyw aelodaeth o bwyllgorau'r Cyngor - bydd hyn yn cael ei wneud yng nghyfarfod mis Mehefin.

10. Dewis cynrychiolydd i:-
Pwyllgor Rhanbarth Un Llais Cymru – Is gadeirydd Sian Angharad Parry

Grwp Mynediad Dwyfor – penderfynu gofyn i Mr Dylan Thomas, Trewerin, Chwilog barhau i fod ar y grwp.

Diolchwyd cyn Gadeirydd Tegid Jones a'r Clerc am ei gwaith yn ystod y flwyddyn.

## 1. CYFARFOD ARFEROL Y CYNGOR (cychwyn am 7:20 y.h.)

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 7fed o Ebrill 2022. (y Clerc am drefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi yn dilyn y cyfarfod).

4. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Ebrill 2022 – (y Clerc am drefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi yn dilyn y cyfarfod).

5. **Datgan buddiant personol - neb.**

6. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

**a) Gorchymyn Cyngor Gwynedd (cau'r Ffordd Ddosbarth III a'r Ffordd Ddi-ddosbarth ger Betws Fawr, Llanystumdwy)** (gwaharddiad trafnidiaeth trwodd dros dro) - 09.05.2022, ac yn parhau am 1 mis. Ar hyn o bryd disgwylir y gellir cwblhau'r gwaith o fewn tua 5 diwrnod. Mae BT Openreach angen mynediad diogel i beirianwyr i strwythurau uwchben ar hyd y ffyrdd. Derbyn.

b) **Rhybudd – cau'r Ffordd Dosbarth III gyferbyn a Bryn Afon, Pencaenewydd ar yr 20.04.2022** – gwaith torri coed ar hyd y ffordd. Derbyn.

7. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

a) **Cais rhif:C22/0342/41/DT - Araul, Pencaenewydd** – estyniad. **Dim gwrthwynebiad**.

b) **Cais rhif:C20/0656/41/CR - Gwynfryn Plas, Ffordd Rhoslan, Llanystumdwy** - addasiadau i adfer yr adeilad a chodi estyniad cefn i greu 25 uned byw.
**Penderfynwyd gwrthod y datblygaid** ar sail yr un rhesymau ag y nodwyd yn dilyn cyfarfod y Cyngor Cymuned ar 3ydd o Ragfyr 2020. Nid oes dim i'w weld yn y cais yma wedi newid i gyfarch y gwrthwynebiadau a nodwyd isod:-

**1**. Nid yw yn cydymffurfio hefo Polisi Tai 7 y Cynllun Datblygu (t 140) ar gyfer Trosi adeiladau traddodiadol yng nghefn gwlad agored i ddefnydd preswyl. Mae'r datblygiad i fod i gydymffurfio â'r 5 pwynt yn y polisi yma. Pwynt 1 y polisi ydi "Bod tystiolaeth nad yw defnydd cyflogaeth o'r adeilad yn hyfyw". Nid oes tystiolaeth o hyn yn y dogfennau sydd wedi cael ei dangos hefo'r cais.

**2**."Bod y datblygiad yn darparu uned fforddiadwy ar gyfer angen lleol". Nid oes sôn am unedau fforddiadwy nag unrhyw arolwg a wnaed o'r angen am unedau o'r fath.

**3.** "Bod y strwythur yn un cadarn". Nid oes sôn fod arolwg strwythurol o'r adeilad wedi ei wneud yn barod ac mae pawb yn ymwybodol fod na ddifrod mawr wedi ei wneud i'r lle ar ôl y tân. Ni ddylid cymryd yn ganiataol fod yr un wal yn gadarn.

**4. 2** Polisi Tai 9 Adran B (t143)

Rhif 9 "Bod y safle mewn lleoliad cynaliadwy – sef yn agos i ganolfan gwasanaethol neu ar lwybr cludiant cyhoeddus". Nid yw yn cydymffurfio hefo'r naill na'r llall.

**5. 3** Polisi Strategol PS 18 (t157), Pwynt 1. "Trothwy tai fforddiadwy" Ar gyfer trosi adeilad traddodiadol yng nghefn gwlad y trothwy ydi 100%. Nid oes dim sôn fod yr un o'r fflatiau yma am fod yn fforddiadwy, heb sôn am bob un ohonyn nhw.

**6** Nid oes dim sôn am Ddatganiad Iaith Gymraeg hefo'r cais.

**7.** Ar y ffurflen gais, pwynt 21 Cyflogaeth, mae nhw'n sôn fod 5 yn cael eu cyflogi yno rŵan ("existing employees") a 3 rhan amser. Nid ydym yn ymwybodol fod yna neb yn gweithio yno ar hyn o bryd. Os mai fflatiau preswyl ydi'r bwriad, beth fyddai gwaith y bobol yma?
**Felly i grynhoi, nid yw'r datblygiad yn cydymffurfio hefo sawl un o Bolisïau Cyngor Gwynedd ac fe ddylid ei wrthod. Fe wnaeth yr aelod lleol, Cynghorydd Rhys Tudur hefyd gadarnhau y byddai yn edrych ar y mater ac yn ymateb yn yr un modd.**

8. **Seddau gwag** - bydd angen un Cynghorydd yn Ward Llanarmon, a 2 yn Ward Llanystumdwy. Bydd angen i'r Clerc osod posteri yn y ddwy Ward, ac ar y safle Wé i holi os oes gan rywun ddiddordeb. Os na fydd ymateb, gall y Cyngor wedyn gyfethol aelodau newydd.

**9. Hyfforddiant Un Llais Cymru** - cynigir hyfforddiant o bob math gan Un Llais Cymru, drwy Zoom, ac ar gyfer cynghorwyr newydd. Mae'r Clerc wedi anfon y manylion at y cynghorwyr i gyd o flaen y cyfarfod. **Derbyn**.

**Materion yn y gymuned**.

10. **Llanystumdwy**

**a) Cwtogi gwasanaeth bws** – derbyniwyd llythyr yn datgan pryder ymysg trigolion pentref Llanystumdwy fod cwtogi sylweddol wedi bod yn y gwasanaeth bws. Y broblem fwyaf yw nad oes gwasanaeth o Bwllheli ar ol 19:48 y.h., ac o Borthmadog nid oes bws ar ol 20:32 y.h. Mae rhai sydd yn gweithio shifftiau hwyr yn dibynnu ar y gwasanaeth bws, ac yn gorfod rhoi'r gorau i'w gwaith. Byddai'n well cael bws yn gadael Porthmadog a Phwllheli ar ol 21:30 fel ag yr oedd yn y gorffennol. Y Clerc wedi ffonio Adran Trafnidaeth Cyngor Gwynedd, a dywedwyd nad oedd Cwmni Arriva yn cynnig y gwasanaeth yma rwan ers cyfnod y clo, oherwydd rhesymau masnachol, ac mai Cwmni Caelloi yn unig oedd yn gwneud rwan. Dywedwyd hefyd fod hyn allan o reolaeth Cyngor Gwynedd oherwydd nad oedd arian ar gael i ymestyn y gwasanaeth.
Dywedwyd fod Cludiant i Gymru yn edrych ar y rhwydwaith i greu gwell cynllun ar hyd y wlad, ac mae'r Clerc wedi gofyn wrth y Rheolwr am sylwadau. **Penderfynwyd aros a gweld beth fyddai'r ymateb gan y Rheolwr.**

b) **Cais i arafu traffig ar yr A479 - ger mynedfa agosaf i Lanystumdwy am Cricieth**.
Cais gan un o drigolion y pentref yn holi pryd bydd y mesuryddion yn cael eu hail osod ger y fynedfa i bentref Llanystumdwy.

Dywedwyd mai yn ystod y tymor twristiaeth roedd y broblem ar ei gwaethaf, ac yn wir ers y Pasg hyd rwan mae'r gor-yrru yn ddrwg iawn eto ac yn peryglu bywyd.
Dywedwyd cyn y Nadolig mai wrth gasglu data yw'r modd o gyfiawnhau gosod mesurau lleihau cyflymder. Mae angen marciau coch ac arwyddion a therfyn cyflymder is ar y rhan yna

o'r ffordd. Mae'r Clerc wedi cysylltu â'r adran berthnasol i holi beth oedd canlyniadau y dangosysddion dros y Gaeaf, ond fel soniwyd ar y pryd rwan ac yn yr Haf mae eu hangen i weld y broblem ar ei gwaethaf. **Aros a disgwyl am ymateb.**

11. **Rhoslan/Ynys**
12. **Chwilog**
13. **Pencaenewydd/Sardis**

a) **Llifogydd Pencaenewydd** – Derbyniwyd gwybodaeth fod Ymgynhoriaeth Cyngor Gwynedd wedi bod yn llwyddiannus yn ei cais diweddar am arian cyfalaf gan Llywodraeth Cymru er mwyn ceisio cyflawni cynllun lliniaru llifogydd yn Mhencaenewydd. Maent wedi anfon cylchlythyr at rai o drigolion Pencaenewydd er mwyn ei diweddaru o'r sefyllfa. **Derbyn**.

b) **Y ffordd o Groesffordd Ty Newydd i Lodge Trallwyn**:

(i) Mae brigau coed drain styfnig yn tyfu i'r ffordd dros dop y wal garreg ger Pont Hendre Garcin, Pencaenewydd ac y maent yn beryg i gerddwyr, beicwyr a cheir sy'n gorfod cadw yn agos at wal y Bont.

(ii) Ar yr ochr chwith ar ben yr allt ar ol pasio mynedfa Glasfryn Fawr am Lodge mae cangen anferth o goeden dderw sydd o bosib wedi hollti ac un hongian uwch ymyl y ffordd. Gallai hon achosi cryn lanast pe digwyddai dorri yn rhydd a disgyn i'r ffordd. **Y Clerc wedi cysylltu hefo'r adran berthnasol ac yn disgwyl ymateb.**

14. **Llangybi**

15. **Canolfan Iechyd Cricieth/Hwb Iechyd Cricieth**

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, deallir fod Cyngor Dolbenmaen a Chyngor Tref Porthmadog eisioes wedi bod yn cwyno am y sefyllfa yma hefyd, sef fod cryn gwyno ymysg trigolion nad oedd meddygon sefydlog yno, methu gweld meddyg, a bod y fferyllfa wedi cael ei symud i'r stryd fawr. Mae Cyngor Dolbenmaen wedi derbyn ymateb gan Mabon ap Gwynfor fis Chwefror yn dweud ei fod am ysgrifennu at Jo Whitehead, Prif Swyddog Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, i drafod y pryderon yma. **Trafodwyd y mater ar y noson, a cadarnhaodd y Cynghorydd Rhys Tudur y byddai yn cysylltu â Mabon ap Gwynfor i weld beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf, a gofynwyd i'r Clerc anfon yr ohebiaeth oedd ganddi ato.**

16. **Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2022 ymlaen**.
***Roedd y gwaith wedi cael ei hysbysebu ar wefan y Cyngor, Y Ffynnon a'r hysbyfyrddau i gael prisiau, hefo dyddiad cau 29.04.2022, er mwyn ei trafod yn y cyfarfod 12.05.2022. Fe drafodwyd y prisiau a dderbyniwyd, a bydd y Clerc yn dangos y prisiau/llythyrau dderbyniwyd i'r Cadeirydd yn dilyn y cyfarfod i gadarnhau ei bod yn gywir. Methwyd a gwneud hyn o flaen y cyfarfod oherwydd bu'n rhaid cynnal y cyfarfod drwy 'zoom' yn hytrach na wyneb yn wyneb oherwydd salwch, fel ag y bwriadwyd yn y Neuadd.***

a. Llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.
b. Llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.
c. Llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.
ch. Llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.
d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.
dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi.

f. **Maenywern, Llanystumdwy** – gwaith clirio tir y Cyngor ger y bont ac ar hyd y wal i fyny tuag at y Bedd.
**Cytunwyd i ofyn i Mr Clifford Hughes wneud y gwaith ar y llwybrau uchod am y flwyddyn tan Ebrill 2023.**

e. Cadw safle bedd D. Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor.
**Cytunwyd i ofyn wrth Mr Gareth Jones ofalu am y bedd tan Ebrill 2023.**

ff. **Cytundeb torri Cae Chwarae Llangybi** (*cytundeb 3 mlynedd eisioes wedi ei wneud rhwng 2021-2023 hefo Mr Rhys Jones).*
g. **Glanhau llochesi bws** – cytundeb eisioes wedi ei wneud llynedd tan 31.03.2023 bob tri mis hefo Criccieth Cleaning.

17. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 03.05.2022. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud. Bydd y Clerc yn trefnu i fynd a'r biliau i gyd at y Cadeirydd yn dilyn y cyfarfod i'w llofnodi a'i awdurdodi.
Cadarnhawyd fod y datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor/Pwyllgor, ac felly bydd y Clerc yn gallu anfon y manylion at yr archwilwyr mewnol.

18. **Praesept** – wedi derbyn £9,1800 ar 29.04.2022.

19. **Cais am arian i Fynwent Chwilog** – i lanhau/ail lythrennu bedd Eifion Wyn a Myrddin Fardd cyn yr Eisteddfod Genedlaethol flwyddyn nesaf. Nodwyd fod beddi eraill yn yr ardal angen ei tacluso hefyd. Y Clerc wedi derbyn gwybodaeth gan Un Llais Cymru byddai cyfrannu at waith fel hyn yn lles i fywyd diwylliannol a hanesyddol y gymuned, felly gellir talu o dan Adran 137 o'r Ddeddf.
Holodd y Clerc Swyddog Cefnogi Cymunedau Cyngor Gwynedd hefyd, i weld os oedd yn bosib cael arian o rywle fel y Gronfa Dreftadaeth. Dyweodd fod nifer o grantiau ar gael ac mae'r Clerc wedi pasio'r wybodaeth ymlaen at y Cynghorwyr i gyd. **Penderfynwyd creu Is-bwyllgor arwahân i drafod yr hyn oedd ei angen, a byddai'r Cynghorwyr Aled Davies, Thomas Prys Jones, Rhys Tudur a'r Clerc yn trefnu cyfarfod drwy 'zoom' ar 26.05.2022**.

20. **Cais am arian i 4 plentyn o Ysgol Llanystumdwy** - mynd am drip ysgol i Mercia, Sbaen mis Gorffennaf, 2022 - un o'r pentrefwyr wedi gofyn am gyfraniad ariannol iddynt gael y profiad o weld plant Sbaeneg mewn ysgol yno. Y Clerc wedi gwneud ymholiadau hefo Un Llais Cymru, a dywedwyd ein bod, "i fod i wario arian er lles y gymuned ac nid unigolion. Er y gallech gyfiawnhau cefnogi grŵp mawr yn mynd ar daith gyfnewid ddiwylliannol, byddai'n anodd esbonio sut y byddai cefnogi'r unigolion hyn o lés i'r gymuned gyfan". **Clerc am anfon llythyr i wrthod.**

21. **Diffibileiddiwr yn Rhoslan a Chapel y Beirdd** – y Clerc wedi derbyn ateb gan yr Adran Gwaith Stryd a Goleuo, Cyngor Gwynedd yn dweud fod y polyn a thrydan wedi cael ei osod rwan ar gyfer gosod y 'diffib.'newydd ger y lloches bws yn Rhoslan. Y Clerc hefyd wedi cysylltu hefo swyddog newydd sydd wedi cael ei gyflogi gan Un Llais Cymru, ac roedd yn dweud y gallwn ni gael 2 diffib newydd am ddim drwy gyswllt sydd ganddo fo, ond fod angen prynu'r 2 gabinet i'w dal nhw. **Bydd angen trafodaeth pellach.**

22. **Cyflog Clerc** – Ar sail gohebiaeth a dderbyniwyd gan NALC drwy Un Llais Cymru a SLCC/ALCC ar 04.03.2022, derbyniwyd tabl graddfeydd cyflog ar gyfer clercod. Ar hyn o bryd

mae'r tabl yma dal i fod yn gyfredol. Felly mae cyflog y Clerc yn cychwyn ar rif 7 – 12, o'r raddfa cenedlaethol SCP. Hefyd, i gymhlethu pethau, 2 flynedd yn nol fe wnaethant newid y rhifau sydd ar y raddfa cyflog o ddechrau Ebrill 2019, oherwydd y 'cyflogau byw cenedlaethol'. Felly bydd cyflog y Clerc yn cychwyn ar rif 7 – 12, yn lle 18 – 22, o'r raddfa cenedlaethol SCP.

Felly, mae cyflog y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol o Ebrill 1af, 2022 ymlaen yn symud i fyny ar y raddfa cyflog, o **pwynt 10 i pwynt 11, sef o £11.28 i £11.50 yr awr, x 35 awr y mis = £402.60**.
Mae cyflog y Clerc yn ol y cytundeb cyflogaeth yn datgan:-

1. **Cyflog**

1.1 "Mae eich cyflog yn unol â phwynt cyflog NJC ar gyfer clercod rhan amser sef ar raddfa LC1 – SCP 18-22.

**1.2** Ar yr amod fod eich perfformiad yn foddhaol, byddwch yn symud yn awtomatig drwy'r raddfa gyflog trwy godiadau blynyddol hyd nes ichi gyrraedd uchafbwynt y raddfa. Bydd eich codiad cyflog cyntaf yn daladwy ar 1 Ebrill 2019 ac wedi hynny ar 1af Ebrill bob blwyddyn hyd nes ichi gyrraedd uchafbwynt y raddfa. Gall y Cyngor ddal codiad cyflog yn ôl os bernir fod eich perfformiad yn is na'r disgwyl, yn dilyn adolygiad blynyddol."

**Cytunwyd fod hyn yn foddhaol, a bod y graddfa cyflog yn codi i pwynt 11, sef £11.50 yr awr o'r 01.04.2022.**

23. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris<br><br>£ | TAW | Cyfanswm Taliad<br>£ | Taliad BACS<br><br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Wifi Capel Pencaenewydd | O'r cyfrif Budd-Cymunedol. Mae'r taliad rhwng 01.04.21 – 31.03.22 (sef £37.14 x 12 mis a =£445.68) | **445.68** | | **445.68** | **445.68** |
| ICO | Drwy ddebyd uniongyrchol | **35.00** | | **35.00** | **35.00** |
| Cyngor Gwynedd (B000097777) | Gwagio bin baw cwn Chwilog | **145.96** | **29.19** | **175.15** | **175.15** |
| D.E.Williams (1254) | Safle bws Trallwyn | **385.00** | **77.00** | **462.00** | **462.00** |

24. Cyflog mis Ebrill 2022 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Ebrill 2022<br>35 awr y mis x £11.50 = £402.50 | 402.50 =<br>Llai treth £80.50<br>= **£322.00** | **322.00** | **322.00** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Ebrill 2022 | 405.50 x 20% = **£80.50** | **80.50** | **80.50** |
| Costau'r Clerc<br>Ebrill 2022 | £16.66 | **16.66** | **16.66** |

Penderfynwyd byddai'r cyfarfod nesaf ar y nos Iau **09.06.2022** drwy Zoom.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**